Dŵr Cymru
Welsh Water

# Wholesale Metered Terms and Conditions

2018-19

dwrcymru.com

# Standard Terms and Conditions for a Metered Supply of Water

At all times the meter remains the property of Dŵr Cymru Welsh Water. It is your responsibility to ensure that it is kept in a safe environment and that access is allowed to Welsh Water employees and/or their representatives so that they can read and maintain the meter.

Dŵr Cymru Welsh Water (hereinafter called 'the Company') will supply water by meter subject to the following terms and conditions:

1. The customer shall take the supply subject to The Water Supply (Water Fittings) Regulations 1999 made under the Water Industry Act 1999 currently in force or any regulations from time to time made by the Secretary of State under the Water Industry Act 1991 or any statutory modification or re-enactment thereof for preventing the waste, undue consumption, misuse or contamination of water, and shall abide by, observe and comply with such byelaws and regulations.
2. For the purpose of ascertaining the quantity of water supplied, the Company will provide a meter of such size and description as it may prescribe and shall maintain and replace the same as it may consider necessary. The said meter or any substituted meter shall belong to the Company and shall not be removed or in any way disturbed or interfered with except by an official of the Company, except under Clause 12 below. Unauthorised tampering with a meter is an offence under S175 of the Water Industry Act 1991 and carries a fine on summary conviction.
3. If water escapes from an internal meter installation for whatever reason, the customer is responsible for any resulting damage. The customer is responsible for ensuring that any internal meter installation is protected from freezing whilst still allowing easy reading of the meter.
4. Should any doubt arise on either side as to the correctness of the meter register of the water supplied, the Company may, and at the written request of the Retailer shall, remove and test the meter in accordance with the Water (Meters) Regulations 1988 and the Measuring Equipment Cold-water Meter) Regulations 1988 and the Measuring Instruments (Cold-water Meters) Regulations 2006 or such other Regulations as may be made. Where a reduction of charges under S.147 of the Water Industry Act 1991 applies, the arrangements for measurement shall be determined by the Company.
5. The customer shall be responsible for all water after it has passed through the meter and shall pay therefore notwithstanding for any loss or leakage, waste or misuse. This responsibility shall not be relieved by any repairs to pipes and fittings which are the customer's responsibility to maintain being carried out by the Company or any other person. Consequently it is in the customer's own interest to read the meter at frequent and regular intervals in order that any unaccountable increase in consumption will not continue without investigation. (See the Company's Leakage Code of Practice and 'Your Water Meter').
6. The Company reserves the right to require the customer to install a stop valve on the customer's part of the service pipe within his own land as near as is reasonably practical to the meter. It should be noted that the customer is responsible for the maintenance of all pipes and fittings (which term, by virtue of Clause 2 above, does not include the meter) on the customer's part of the service pipe irrespective of the position of the meter. The customer's part of the service pipe extends from the Company stop valve generally at the highway boundary into the customer's premises. The responsibility for some parts of the service pipe is sometimes shared with other customers.
7. The Company reserves the right to require the customer to install cold water storage facilities having a volume considered adequate by the Company in relation to the use of water at the site to be connected.
8. The supply of water may be interrupted or suspended for the purposes of carrying out any necessary works subject to any safeguards relating to prior notification under the Company's Service Guarantee.
9. Subject to the Company's Service Guarantee, the Company shall not be responsible for any damage or loss that the customer may sustain or any accident to any of the customer's employees by reasons of any interruption or suspension of the supply or any excess or deficiency of pressure or any failure of any employees, works, machinery, pipes or apparatus of the Company, save that the Company does not exclude or restrict liability for death or personal injury caused by its negligence.
10. The supply of water may also be discontinued at the request of the customer or retailer in accordance with S.62 of the Water Industry Act 1991. Provided the customer or retailer has given notice to the Company under S.62 of the Water Industry Act 1991 for the supply of water to be disconnected. If the arrangements to supply water by meter are discontinued for any reason and the meter is within the curtilage of the customer's premises, the customer will be required at his/her expense to remove and to deliver the meter to the Company in good condition, unless the customer and the Company agree that the meter becomes the property and liability of the customer.
11. Any notice from the Company under these terms and conditions may be served by leaving it for the customer at the premises to be supplied or at the customer's last known address or place of business or (in the case of a company) at its registered office or by putting it into the general post addressed to the customer at such premises, and shall be sufficiently authenticated if it bears or purports to bear, in print or otherwise, the signature of the Director or any other authorised officer of the Company. Any notice from the customer to the Company shall be signed by or on behalf of the customer, and shall be sent to: Dŵr Cymru Welsh Water, P.O. Box 690, Cardiff, CF3 5WL by post or otherwise.
12. The Company will specify details of the meter location, type, size and installation arrangements, in accordance with S.47(2) and S.162 of the Water Industry Act 1991 subject to any overriding statutory regulations. If the meter is not located in the highway, and not on the customer's own premises, the customer must have a legal right of access thereto for the benefit of themselves and the Company.

# Telerau ac Amodau Safonol ar gyfer Cyflenwad Dŵr Mesuredig

Mae'r mesurydd dŵr yn parhau'n eiddo i Dŵr Cymru bob amser. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff ei gadw mewn amgylchedd diogel, ac am ganiatáu mynediad i gyflogeion a/neu gynrychiolwyr Dŵr Cymru er mwyn darllen a chynnal a chadw'r mesurydd.

Bydd Dŵr Cymru (fe'i gelwir "y Cwmni" o hyn ymlaen) yn cyflenwi dŵr drwy fesurydd yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau canlynol:

1. Bydd y cwsmer yn derbyn y cyflenwad yn unol â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999 sydd mewn grym ar hyn o bryd neu unrhyw reoliadau a wneir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad statudol ohoni o ran atal gwastraff, defnydd gormodol, camddefnyddio neu halogi dŵr, a bydd yn cadw at unrhyw is-ddeddfau a rheoliadau o'r fath ac yn cydymffurfio â hwy.
2. Er mwyn canfod faint o ddŵr a gyflenwir, bydd y Cwmni yn darparu mesurydd o'r cyfryw faint a disgrifiad ag y bydd yn ei bennu, a bydd yn cynnal a chadw ac yn gosod yr un math o fesurydd fel y gwêl yn dda. Bydd y mesurydd hwnnw neu unrhyw fesurydd amgen yn eiddo i'r Cwmni ac ni chaiff ei dynnu oddi yno neu ni tharfir arno ac nid ymyrrir ag ef mewn unrhyw ffordd heblaw gan swyddog y Cwmni, ac eithrio o dan Cymal 12 isod. Mae addasu mesurydd heb ganiatâd yn drosedd o dan A175 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a chodir dirwy os ceir collfarn ddiannod.
3. Os bydd dŵr yn gollwng o osodiad mesurydd mewnol am ba reswm bynnag, y cwsmer a fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod canlyniadol. Mae'r cwsmer yn gyfrifol am sicrhau y caiff unrhyw osodiad mesurydd mewnol ei amddiffyn rhag rhew ond ei fod yn hawdd ei ddarllen ar yr un pryd.
4. Os bydd y Cwmni neu'r cwsmer yn amau cywirdeb cofrestr mesurydd y dŵr a gyflenwir, gall y Cwmni, ac ar gais ysgrifenedig y cwsmer, dynnu'r mesurydd oddi yno a'i brofi yn unol â Rheoliadau (Mesuryddion) Dŵr 1988 a Rheoliadau Offer Mesur (Mesurydd Dŵr Oer) 1988 a Rheoliadau Offer Mesur (Mesurydd Dŵr Oer) 2006 neu'r cyfryw Reoliadau eraill y gellir eu gwneud. Pan gaiff taliadau eu lleihau o dan A.147 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, y Cwmni fydd yn penderfynu ar y trefniadau mesur.
5. Bydd y cwsmer yn gyfrifol am yr holl ddŵr ar ôl iddo basio drwy'r mesurydd ac er gwaethaf unrhyw golled neu ollyngiad, gwastraff neu gamddefnydd bydd y cwsmer yn talu amdano. Ni fydd unrhyw waith trwsio a wneir gan y Cwmni neu unigolyn arall i bibellau neu ffitiadau y mae'r cwsmer yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw yn rhyddhau'r cyfrifoldeb hwn. O ganlyniad, mae'n fuddiol i'r cwsmer ddarllen y mesurydd yn aml er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gynnydd mewn defnydd na ellir ei esbonio yn parhau heb ymchwilio iddo. (Gweler Cod Ymarfer ar Ollyngiadau'r Cwmni ac 'Eich Mesurydd Dŵr').
6. Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i ofyn i'r cwsmer osod falf stop ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth ar ei dir ei hun mor agos ag sy'n ymarferol bosibl i'r mesurydd. Dylid nodi bod y cwsmer yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl bibellau a'r ffitiadau (nad yw'r term hwn, yn unol â Chymal 2 uchod, yn cynnwys y mesurydd) ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth waeth ble y lleolir y mesurydd. Mae rhan y cwsmer o'r bibell wasanaeth yn ymestyn o falf stop y Cwmni sydd fel arfer ar ffin y briffordd i mewn i safle'r cwsmer. Weithiau caiff y cyfrifoldeb am rai rhannau o'r bibell wasanaeth ei rannu â chwsmeriaid eraill.
7. Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i ofyn i'r cwsmer osod cyfleusterau storio dŵr oer â chyfaint y mae'r Cwmni yn ei ystyried yn ddigonol o ran faint o ddŵr a ddefnyddir ar y safle a gaiff ei gysylltu.
8. Gellir torri neu atal y cyflenwad dŵr at ddibenion cynnal unrhyw waith angenrheidiol yn amodol ar unrhyw gamau diogelu sy'n ymwneud â hysbysiad ymlaen llaw o dan Warant Gwasanaeth y Cwmni.
9. Yn unol â Gwarant Gwasanaeth y Cwmni, ni fydd y Cwmni yn gyfrifol am unrhyw ddifrod na cholled a achosir i'r cwsmer nac am unrhyw ddamwain i unrhyw un o gyflogeion y cwsmer o ganlyniad i dorri neu atal y cyflenwad neu unrhyw ormodedd neu ddiffyg pwysedd neu fethiant unrhyw gyflogeion, gwaith, peiriannau, pibellau neu gyfarpar y Cwmni, heblaw pan na fydd y Cwmni yn cynnwys nag yn cyfyngu atebolrwydd am farwolaeth neu niwed personol a achoswyd gan ei esgeulustod.
10. Gellir terfynu'r cyflenwad dŵr hefyd ar gais y cwsmer yn unol ag A.62 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Os bydd y cwsmer wedi hysbysu'r Cwmni o dan A.62 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 o'r angen i ddatgysylltu'r cyflenwad dŵr. Os caiff y trefniadau i gyflenwi dŵr drwy fesurydd eu terfynu am unrhyw reswm a bod y mesurydd o fewn cwrtil safle'r cwsmer, bydd yn ofynnol i'r cwsmer dalu i'r mesurydd gael ei dynnu oddi yno a'i anfon i'r Cwmni mewn cyflwr da, oni bai bod y cwsmer a'r Cwmni wedi cytuno y daw'r mesurydd yn eiddo i'r cwsmer ac y bydd y cwsmer yn gyfrifol amdano.
11. Gall unrhyw hysbysiad gan y Cwmni, o dan y telerau ac amodau hyn, gael ei gyflwyno drwy ei adael i'r cwsmer ar y safle i'w gyflenwi neu yng nghyfeiriad neu safle busnes hysbys diwethaf y cwsmer neu (yn achos cwmni) yn ei swyddfa gofrestredig neu drwy ei anfon yn y post cyffredinol at y cwsmer ar y cyfryw safle, a chaiff ei ddilysu'n ddigonol os yw'n nodi neu'n honni ei fod yn nodi, mewn print neu fel arall, lofnod y Cyfarwyddwr neu unrhyw swyddog awdurdodedig arall y Cwmni. Bydd y cwsmer neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran yn llofnodi unrhyw hysbysiad i'r Cwmni, ac yn anfon yr hysbysiad hwnnw i: Dŵr Cymru, Blwch Swyddfa'r Post 690, Caerdydd, CF3 5WL drwy'r post neu mewn ffordd arall.
12. Bydd y Cwmni yn nodi manylion am leoliad, math, maint a threfniadau gosod y mesurydd, yn unol ag A.47(2) ac A.162 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn amodol ar unrhyw reoliadau statudol cyffredinol. Os nad yw'r mesurydd wedi'i leoli ar y briffordd, nac ar safle'r cwsmer ei hun, mae'n rhaid i'r cwsmer gael hawl mynediad gyfreithiol ato er ei fudd ei hun a budd y Cwmni.